# Canllaw Cyfathrebu'r Ysgol

Mae cyfathrebu da rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol. Fel ysgol, mae gennym nifer o sianeli cyfathrebu, a lluniwyd y dudalen hon er mwyn i chi fod yn glir beth rydym yn ei ddefnyddio ac i ba ddiben.

Diolch i'r rhieni hynny sydd wedi gweithio gyda ni ar y darn hwn o waith.

Uwch Dîm Arwain

## Sut rydym yn cysylltu â chi

Ar **wefan yr ysgol** fe welwch drosolwg o'r ysgol. Mae ein gwefan yn cynnwys Adran Amdanom, Gwybodaeth Allweddol, Gwydoaeth am y Cwricwlwm, Tudalennau'r Chweched Dosbarth, Tudalennau Pontio a gwybodaeth am ein Darpariaeth Llesiant. Ar ein gwefan rydym hefyd yn rhoi newyddion a digwyddiadau (gallwn rannu'r rhain ar Facebook hefyd) a gwybodaeth am y partneriaid rydym yn cydweithio gyda hwy.

Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys manylion cyswllt a dolenni adborth.

**Go4Schools** Hwn yw ein prif blatfform i sicrhau bod rhieni'n cael eu diweddaru am bresenoldeb, credydau cadarnhaol a materion ymddygiad. Mae **lawrlwytho'r Ap** yn golygu bod gan rieni mwy o fynediad i ymarferoldeb Go4schools ac argymhellir yn gryf bod pob rhiant/gofalwr yn gwneud hyn. Os oes angen cymorth arnoch i lawrlwytho Go4schools, e-bostiwch **helpdesk@caloncymru.powys.sch.uk** Defnyddiwch y fersiwn bwrdd gwaith i weld adroddiadau.

**Ffôn** Defnyddir galwadau ffôn gan y staff i gyd lle bo angen er mwyn sicrhau cyswllt uniongyrchol â rhieni. Byddwn bob amser yn cysylltu â chi ar y ffôn pan fo angen deilaog neu sgwrs. Gallai hyn ymwneud ag agwedd academaidd neu lesiant bywyd ysgol eich mab/merch.

Defnyddir **E-bost** i'ch hysbysu am negeseuon a chyhoeddiadau di-frys. Rydym yn defnyddio e-bost i anfon unrhyw atodiadau neu ddogfennau atoch fel ffurflenni neu ein cylchlythyron.

**Negeseuon Testun** Defnyddir cyfathrebu trwy neges destun i drosglwyddo gwybodaeth amser sensitif. Er enghraifft, gwybodaeth am ganslo digwyddiadau'n annisgwyl, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw newidiadau i'r diwrnod ysgol sy'n arwain at newid i gludiant, fel ar ddyddiau eira.

**Facebook** Hwn yw ein platfform cyhoeddus i ddathlu cyrhaeddiad disgyblion, a rhannu storïau newyddion da i'r gymuned ehangach. Rydym yn ei ddefnyddio i gyhoeddi digwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth am ymgyrchoedd, mentrau a phethau diddorol sy'n digwydd yn yr ysgol.

Defnyddir **Instagram** i rannu deilliannau hwyliog, llesiant, chwaraeon a chreadigol o gymuned ein hysgol drwy ein cyfrifon swyddogol.

# Canllaw Cyfathrebu’r Ysgol

YSGOL CALON CYMRU

Beth i’w ddefnyddio a’r ffordd orau i gysylltu â ni

**Gwefan** Defnyddiwch ei gwefan i gyrchu enwau a manylion Arweinwyr Cynnydd ar gyfer pryderon academaidd a bugeiliol. Wedi i chi ddod o hyd i enw’r Arweinydd Cynnydd, e-bostiwch y swyddfa ganolog office@caloncymru.powys.sch.uk a byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd y person cywir. Ar ein gwefan, mae gennym hefyd fotwm adborth cyffredinol. Defnyddiwch hwn i rannu unrhyw awgrym neu syniad fydd yn ein helpu i wella.

Mae **Go4Schools** yn rhoi gwybodaeth i chi trwy adeiladu tudalen broffil ar sut y mae eich mab/merch yn dod ymlaen yn yr ysgol. Mae lawrlwytho’r **Ap** yn rhoi mynediad lawn i ymarferoldeb Go4schools ac argymhellir yn gryf bod y rhieni/gofalwyr i gyd yn gwneud hynny. Os oes angen cymorth arnoch i lawrlwytho Go4schools e-bostiwch **helpdesk@caloncymru.powys.sch.uk**

**Ffôn** Os ydych yn teimlo bod angen i chi sgwrsio ag aelod o staff am eich cwestiwn neu bryder, cofiwch roi galwad ffôn i ni. Mae staff yn swyddfeydd yr ysgol gydol y diwrnod ysgol. Bydd ein timau gweinyddol yn medru helpu i ateb eich ymholiad neu eich cyfeirio at yr aelod cywir o staff. Os yw eich plentyn yn sâl, rhowch wybod i **gampws Llanfair** ar 01982 553292 neu **gampws Llandrindod** ar 01597 822992

**E-bost** Gall rhieni/gofalwyr holi ynglŷn â mater trwy e-bost. Lle’n bosibl, cyfeiriwch hyn at yr athro/aelod o staff, ond dylid anfon pob e-bost trwy office@caloncymru.powys.sch.uk**.** Cyfeiriwch e at yr aelod o staff, maes pwnc a’ch ymholiad, enw’r plentyn a bydd ein staff swyddfa’n gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei drosglwyddo.

**Negeseuon Testun** Nid yw’r opsiwn hwn ar gael.

**Facebook** Defnyddiwch hwn i’n helpu i ddathlu cyrhaeddiad disgyblion, digwyddiadau a rhannu newyddion da. Rhannwch ein storïau a rhowch bawd i fyny i ni. Mae gennym dros 1000 o danysgrifwyr ac rydym yn gobeithio dal ati i adeiladu mwy o ddilynwyr.

**Instagram** Rhowch ‘hoffi’ i’n pyst, neu gallwch adael sylw calonogol i’n disgyblion.